Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

24 Medi 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd (Memorandwm rhif 2)

## Cefndir

1. Cwblhaodd Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd ("y Bil") Llywodraeth y DU[1] ei gamau pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 30 Gorffennaf 2014. Mae amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yn ymwneud â chyflwyno diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system cyfiawnder yn ogystal â darpariaethau wedi'u targedu er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well a lleihau'r achosion o aildroseddu.

## Cydsyniad deddfwriaethol

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 29 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, pan fo un o Filiau'r DU yn cynnwys darpariaethau (naill ai wrth gael ei gyflwyno neu o ganlyniad i welliannau a gyflwynir) sy'n rhan o - neu sy'n addasu - cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ("Memorandwm"). Mae'n rhaid i'r Memorandwm roi crynodeb o amcanion polisi Bil, nodi i ba raddau y mae Bil yn gwneud (neu y byddai'n gwneud) darpariaeth berthnasol, ac egluro a yw'n ystyried ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud.

3. Pan gaiff Memorandwm ei osod, fel arfer mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes ei gyfeirio at bwyllgor i'w drafod, gan amlinellu'r amserlen i'r pwyllgor perthnasol gyflwyno adroddiad ar y mater.

---

[1] *Y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd*, Bil 43 2014-15

**Y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd**

4. Y diben a nodwyd ar gyfer y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd yw gwneud darpariaeth ynghylch sut yr ymdrinnir â throseddwyr cyn ac ar ôl eu collfarnu; diwygio'r drosedd sy'n ymwneud â meddu ar luniau pornograffig eithafol; gwneud darpariaeth ynghylch trafodion a phwerau llysoedd a thribiwnlysoedd; gwneud darpariaeth ynghylch adolygiadau barnwrol; ac at ddibenion cysylltiedig.

*Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol (Memorandwm rhif 1)*

5. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a oedd yn ymwneud â'r Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mai 2014[2], a gosodwyd fersiwn ddiwygiedig ar 25 Mehefin 2014[3]. Gosodwyd y Memorandwm hwn oherwydd ystyriwyd fod y gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil – a oedd yn ymwneud â'r polisi cynllunio – yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Cyfeiriwyd y Memorandwm at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w drafod. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynnig cydsyniad deddfwriaethol a thrafodwyd y cynnig yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf 2014.[4] Cytunodd y Cynulliad i gynnwys y darpariaethau perthnasol yn y Bil.

*Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm rhif 2)*

6. Cyflwynodd y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, ragor o welliannau i'r Bil ar 10 Mehefin 2014. Mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau bod esgeulustod a cham-drin bwriadol ar ran gweithwyr gofal a darparwyr gofal yn drosedd. Gan fod y gwelliannau hyn yn gwneud darpariaethau yr ystyrir eu bod yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, gosododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("y Memorandwm Atodol") mewn perthynas â'r Bil ar 24 Mehefin 2014.[5]

---

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *LCM-LD9756* Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd, 15 Mai 2014

[3] Ibid, *LCM-LD9756 -* Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd, 25 Mehefin 2014

[4] Ibid, y Cyfarfod Llawn, *Cofnod y Trafodion [17:42],* 8 Gorffennaf 2014

[5] Ibid, *LCM-LD9794* - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd, 24 Mehefin 2014

7. Trafododd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol ar 1 Gorffennaf 2014. Cyfeiriwyd y Memorandwm at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor) i'w drafod, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y darpariaethau perthnasol erbyn 25 Medi 2014. Caiff y Memorandwm ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Medi 2014.

**Prif effaith y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer**

8. Gwneir cais am gydsyniad mewn perthynas â sicrhau bod esgeulustod a cham-drin bwriadol ar ran gofalwyr yn drosedd. Bydd y darpariaethau a gyflwynwyd gan welliannau'r Ysgrifennydd Gwladol yn gymwys i Gymru.

9. Mae'r gwelliannau o fewn y Bil fel y'i diwygiwyd yn cynnwys Cymalau Newydd 19, 20, 21, 22, 23 a 24 ac Atodlen 3 Newydd. Mae'r gwelliannau yn gymwys i Gymru.

10. Yn gryno, mae'r cymalau newydd yn gwneud darpariaethau fel a ganlyn:

- Mae **cymal 19 newydd** yn nodi bod esgeulustod a cham-drin bwriadol gan weithiwr gofal yn drosedd ac yn nodi'r cosbau sy'n gymwys wedi collfarn.

  Mae'r cymal yn nodi ei bod yn drosedd pan fo unigolyn yn dioddef esgeulustod neu gam-drin bwriadol gan weithiwr gofal a delir i ddarparu unigolyn â gofal iechyd (ar wahân i ofal iechyd wedi'i eithrio) neu ofal cymdeithasol i oedolion.

  Diffinnir 'gofal iechyd wedi'i eithrio' yn Atodlen 3 Newydd fel gofal iechyd a ddarperir ar safle, neu mewn adeilad a ddarperir gan, sefydliad addysgol neu mewn cartref i blant neu ganolfan breswyl i deuluoedd.

  Diffinnir 'gweithiwr achos' fel unigolyn sydd, fel rhan o waith â thâl, yn darparu gofal iechyd i oedolyn (unigolyn sydd dros 18 oed) neu blentyn (unigolyn sy'n iau na 18 oed) neu ofal cymdeithasol i oedolyn.

  Mae 'gofal iechyd' yn cynnwys pob math o ofal iechyd corfforol neu feddyliol a ddarperir i unigolion, gan gynnwys gofal a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, diogelu iechyd cyhoeddus a

gweithdrefnau sy'n debyg i fathau o ofal meddygol neu lawdriniaethol ond na chaiff ei ddarparu mewn cysylltiad â chyflwr meddygol.

Mae 'gofal cymdeithasol' yn cynnwys pob math o ofal personol a chymorth ymarferol a ddarperir i unigolion y mae angen gofal o'r fath arnynt oherwydd oedran, salwch, anabledd, beichiogrwydd, genedigaeth, dibynadwyedd ar alcohol neu gyffuriau neu amgylchiadau tebyg.

- Mae **cymal 20 newydd** yn nodi trosedd a gyflawnir gan ddarparwyr gofal. Mae darparwyr gofal yn gyrff ac yn unigolion sy'n darparu neu'n trefnu ar gyfer darparu gofal iechyd (ar wahân i ofal iechyd wedi'i eithrio) neu ofal cymdeithasol i oedolion. Mae'n gymwys pan fo unigolyn wedi dioddef esgeulustod a cham-drin bwriadol ar ôl i'r darparwr dorri'r ddyletswydd gofal yn ddifrifol.

- Mae **cymal 21 newydd** yn eithrio awdurdodau lleol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru) o gwmpas y drosedd a sefydlwyd gan gymal 20 newydd wrth gyflawni eu swydogaethau ehangach o ran darparu gwasanaethau i blant a sefydliadau eraill wrth gyflawni swyddogaethau ar ran awdurdod lleol.

- Mae **cymal 22 newydd** yn nodi cosbau sy'n gymwys i droseddau o dan gymal 20 newydd, sy'n cynnwys gosod dirwyon neu orchmynion cyhoeddusrwydd.

- Mae **cymal 23 newydd** yn nodi sut y mae'r drosedd o dan gymalau 20 a 22 newydd sy'n ymwneud â darparwyr gofal yn gymwys i gymdeithasau anghorfforedig, gan gynnwys partneriaethau.

- Mae **cymal 24 newydd** yn darparu na ddylai unigolion fod yn atebol am droseddau ategol sy'n gysylltiedig â'r drosedd newydd yng nghymal 20 newydd sy'n ymwneud â darparwyr gofal.

- Mae **Atodlen 3 newydd** yn eithrio gofal iechyd a ddarperir mewn lleoliadau addysg a gofal plant penodol o gwmpas y drosedd yng nghymal 19 newydd.

11. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn nodi nad yw'r darpariaethau'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru greu is-ddeddfwriaeth ac nid oes goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

12. Mae'r Memorandwm Atodol yn nodi cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan Bennawd 15 (Lles Cymdeithasol) Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan eu bod yn berthnasol i les cymdeithasol ac amddiffyn plant a’u lles, oedolion ifanc, personau hyglwyf a phersonau hŷn.

13. Y safbwynt a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Atodol yw fod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ond ei bod yn briodol ymdrin â hwy yn un o Filiau'r DU. Y rheswm a roddir dros y safbwynt hwn yw ei fod yn cynrychioli'r dull deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur o wneud y darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae'r Memorandwm Atodol hefyd yn nodi mai mantais hyn yw sicrhau y gellir dod â'r darpariaethau hyn i rym yng Nghymru a Lloegr ar yr un pryd.

## Trafod y Memorandwm

14. Oherwydd yr amser y gosodwyd y Memorandwm Atodol, nid oedd yn bosibl i'r Pwyllgor ei drafod yn ffurfiol cyn toriad yr haf. Er hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am y pwyntiau a ganlyn:

- yr amcan polisi perthnasol gan Lywodraeth Cymru y mae darpariaethau'r Memorandwm hwn yn berthnasol iddo;
- sut y mae'r darpariaethau'n ymwneud â bwrw ymlaen ag unrhyw bolisi perthnasol;
- a fydd gweithwyr gofal mewn lleoliadau gofal iechyd wedi'u heithrio yn cael eu cosbi am esgeulustod a cham-drin bwriadol ac, os felly, sut;
- pam fod awdurdodau lleol wedi'u heithrio o gwmpas yr hyn a oedd, ar adeg ysgrifennu hwn, yn gymal 18 (cymal 20 bellach yn y Bil fel y'i diwygiwyd);

- eglurhad mwy manwl am pam yr ystyrir ei bod yn briodol bwrw ymlaen drwy ddeddfwriaeth y DU yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ar reoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru.

15. Ceir ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i bob un o'r pwyntiau hyn yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd, a byddai'n croesawu manylder tebyg ym memoranda'r dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y darpariaethau a wneir yn y Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, ac yn nodi'r eglurhad a roddwyd am yr eithriadau amrywiol sy'n gymwys i'r darpariaethau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod ei bod yn synhwyrol manteisio ar y cyfle i ddeddfu ar yr un pryd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol, opsiwn na chaiff ei gynnwys yn y Bil Rheoleiddio ac Adolygu sydd ar y gweill, ac y mae'r Gweinidog yn nodi y caiff ei gwmpas ei gyfyngu i ofal cymdeithasol.

**Ein barn ni**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r Memorandwm ac nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiad iddo gael ei ddefnyddio yn y modd a gynigir.

Atodiad A

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/MD/0711/14

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
HSCCommittee@wales.gov.uk

4 Medi 2014

Annwyl David,

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (LCM) y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd – trosedd Camdriniaeth neu Esgeulustod Bwriadol**

Diolch am y llythyr at Gwenda Thomas AC yn gofyn am eglurhad ar faterion yn ymwneud â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Gan y byddaf i'n arwain y ddadl, roedd yn briodol i mi ymateb i'ch ymholiadau.

Ers imi osod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 24 Mehefin 2014, mae'r Prif Weinidog wedi amlinellu'r blaenoriaethau deddfwriaethol ar gyfer y Cynulliad dros y flwyddyn nesaf. Yn y cyhoeddiad hwn, ar 15 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog Fil i ddatblygu'r gyfundrefn rheoleiddio ar arolygu i amddiffyn a hyrwyddo lles pobl yng Nghymru sydd â'r angen mwyaf am ofal a chymorth.

Ni roddwyd sylw yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r gorgyffwrdd rhwng y troseddau hyn a'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu sydd ar y gweill. Gobeithio y bydd o gymorth i'r pwyllgor imi roi amlinelliad o fy marn i a barn y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

O ran gweithwyr gofal cymdeithasol, byddai'r ddarpariaeth ar gyfer trosedd o'r fath o fewn sgôp y Bil Rheoleiddio ac Arolygu arfaethedig. Mae'r Bil yn ymwneud â rheoleiddio darparwyr gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae wedi'i gyfyngu'n unig i ofal cymdeithasol tra bod y drosedd a gyflwynwyd ym Mil Llywodraeth y DU yn berthnasol i ofal cymdeithasol ac iechyd.

Nid oes unrhyw cyfle i ddeddfu mewn perthynas â gweithwyr gofal iechyd yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae'n fwy ansicr byth a fydd cyfle o'r fath yn codi yn ystod y Cynulliad nesaf, a byddai'n golygu bod nifer o flynyddoedd cyn y gellir cyflwyno trosedd mewn perthynas â gweithwyr gofal iechyd beth bynnag. Yn ychwanegol at hyn, pe bai'r troseddau'n cael eu cyflwyno mewn dau fil ar wahân, un ar gyfer iechyd ac un ar gyfer gofal cymdeithasol, nid oes sicrwydd y byddai'r troseddau'n cael eu cyflwyno yn union yr un fath. Am y rhesymau hyn rwyf innau a'r Dirprwy Weinidog o'r farn ei bod yn iawn i'r darpariaethau ym Mil y DU, sy'n cyflwyno'r troseddau hyn, fod yn berthnasol i Gymru yn ogystal â Lloegr, yn amodol ar gytundeb y Cynulliad. Rwyf felly wedi gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad yn gofyn am ei gydsyniad i gyflwyno trosedd mewn perthynas â gweithwyr gofal

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol drwy Fil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd Llywodraeth y DU.

Mewn ymateb i'ch ymholiadau eraill:

Mae "Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol" yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Robert Francis i'r digwyddiadau yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford. Mae'n dangos ein hymrwymiad i ddarparu gofal diogel a thosturiol i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gennym ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar anghenion a hawliau cleifion bob amser. Mae Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol yn sôn am yr angen i ddatblygu anoddefgarwch o ofal annerbyniol. Felly mae cyflwyno trosedd o'r fath yn ategu polisi Llywodraeth Cymru.

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, a gyhoeddwyd yn 2011, nododd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yr egwyddorion ar y ffordd ymlaen ar gyfer datblygu gofal cymdeithasol. Un o'r egwyddorion allweddol oedd diogelwch, a fynegwyd fel hyn: "Mae gennym oll, yn hen ac yn ifanc, yr hawl i gael ein diogelu rhag niwed ac esgeulustod lle gellir ei osgoi."

Bydd cyflwyno'r drosedd hon yn cyfrannu at fodloni'r egwyddor hon, a'r nodau polisi sylfaenol sy'n llifo ohono, drwy egluro na fydd esgeulustod bwriadol yn cael ei oddef yn ein system gofal cymdeithasol. Bydd yn rhan o fframwaith deddfwriaethol ehangach sy'n amddiffyn dinasyddion rhag camdriniaeth ac esgeulustod mewn gofal cymdeithasol. Ym maes gofal iechyd a gofal cymdeithasol bydd yn cyfleu neges ac yn darparu arf ataliol i'r rhai sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol y gallant gael eu dal i gyfrif drwy broses droseddol.

Yn ymgynghoriad yr Adran Iechyd ar ran Cymru a Lloegr tynnwyd sylw at y ffaith y bydd gweithwyr gofal mewn lleoliadau gofal iechyd eithriedig yn dal i fod yn agored i adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc dan 16 ymosod yn fwriadol arno, ei gam-drin, ei esgeuluso, cefnu arno neu wneud y plentyn i ddioddef yn ddiangen neu niweidio ei iechyd. Roedd yr Adran Addysg yn Lloegr o'r farn nad oedd angen ymestyn sgôp y drosedd y tu hwnt i leoliadau gofal iechyd ffurfiol gan y gellid dal i gyfrif weithiwr gofal sy'n darparu gofal iechyd yn un o'r gwasanaethau a lleoliadau eithriedig os digwydd iddynt gam-drin neu esgeuluso eu claf yn fwriadol, gan fod yr achosion posibl yn gyfyngedig a bod digon o gamau diogelu eisoes yn bodoli yn yr amgylchiadau hynny.

Nid yw eithrio awdurdodau lleol o sgôp trosedd y darparwr gofal yn eithriad cyffredinol. Mae'n eithriad yn yr achosion hyn yn unig - mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau addysg, eu swyddogaeth wrth sicrhau digon o ofal plant yn eu hardal o dan Ran 2 o Ddeddf Gofal Plant 2006, neu mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gyda phlant. Gall hyn gynnwys pan fydd gwasanaethau, a all fod yn ofal iechyd, yn cael eu cynnwys fel rhan o becyn integredig o wasanaethau a bennir gan yr awdurdod lleol neu ei asiant, wedi'i deilwra i anghenion plentyn arbennig.

Mae'r eithriad hwn yn cael ei gynnwys ar gais yr Adran Addysg yn Lloegr, er mwyn darparu cysondeb o safbwynt lleoliadau a gwasanaethau plant nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, ac er mwyn eithrio atebolrwydd mewn amgylchiadau lle mae elfen yn unig o ofal iechyd yn y trefniadau a wneir gan awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, gall awdurdod lleol fod yn atebol o dan drosedd y darparwr gofal mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol oedolion, diogelu oedolion sy'n agored i niwed, etc.

Hyderaf fod hyn yn egluro'r pwyntiau pwysig a godwyd gennych.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services